NEWYDDION PLASMAWR

Ionawr 2012

DYDDIADAU PWYSIG

Ionawr 19: Noson cyflwyno cwricwlwm CA4 i ddisgyblion a rhieni Bl 9 (1730).
Ionawr 24: Noson i rieni disgyblion Bl 9 sy'n mynychu'r daith i Amsterdam (1730).
Ionawr 25: Cystadleuaeth Cerddor Ifanc Plasmawr.
Ionawr 27: Cwis CRAP—Neuadd am 1900.
Chwefror 3—6:
Taith Bl 9 i Amsterdam.
Taith Bl 11 i Glanllyn.
Chwefror 2: Noson rhieni i drafod opsiynau — Bl 9 (1545).
Chwefror 9: Rhieni Bl 10 (1545).
Chwefror 10:
Eisteddfod yr Ysgol.
Chwefror 13—17:
Gwyliau hanner tymor.

Chwefror 23: Noson opsiynau'r Chweched Dosbarth i Fl 11 (1730).
Mawrth 7: Rhieni Bl 7 (1545).
Mawrth 13—15: Cynhyrchiad—Olifyr.

Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Mae'r hanner tymor nesaf yn un pwysig yn nhermau arholiadau modylol TGAU, UG a safon Uwch ac i ddisgyblion Blwyddyn 9 wrth feddwl am opsiynau blwyddyn nesaf. Gwnewch nodyn o'r dyddiadau sy'n berthnasol i chi.

Cyngerdd Nadolig

Diolch diffuant i bawb a gyfranodd ac a fynychodd ein cyngerdd Nadolig yn y Coleg Cerdd a Drama ar ddiwedd mis Rhagfyr, roedd hi'n noson gofiadwy. Diolch i'r llu o bobl a gysyllytodd ar ol y cyngerdd i longyfarch y disgyblion ar eu perfformiadau.

Fe fydd elw'r noson a'r raffl yn mynd tuag at elusen yr ysgol — Hospis plant Ty Hafan a diolch i banc Barclays am addewid i gyfrannu at yr elusen yn ogystal.

Rhiant Lywodraethwr Newydd

Diolch i Nicola Heywood Thomas am ei gwasanaeth ffyddlon i'r corff llywodraethol dros y blynyddoedd diwethaf a llongyfarchiadau i Catrin Redknap am gael eu hethol yn riant lywodraethwr newydd. Fe fydd etholiad arall yn cael ei chynnal yn ystod yr wythnosau nesaf pan ddaw cyfnod Mr D. Boobier i ben fel rhiant lywodraethwr.

Cyfleoedd

Anogoir pob disgybl i gyfrannu at gystadleuthau unigol yr Eisteddfod Ysgol ar ddiwedd yr hanner tymor ac mae cyfle i'n cerddorion gorau i gystadlu yng nghystadleuaeth cerddor ifanc ar ddiwedd y mis. Dewch i wrando ar y gerddorfa ar yr un noson.

Gwefan yr ysgol

Mae gwefan yr ysgol bellach ar ei newydd wedd a chaiff y dudalen flaen ei ddiweddaru'n wythnosol gyda'r newyddion a'r cyhoeddiadau diweddaraf. Os oes gennych awgrymiadau am sut allwn ddatblygu'r wefan ymhellach yna cysylltwch a Gareth Hall Williams, ghw@plasmawr.cardiff.sch.uk

C.R.A.P.

Mae gweithgareddau 'r Gymdeithas wedi bod yn llwyddiannus iawn eleni hyd yn hyn. Y ffair Nadolig oedd y digwyddiad mwyaf diweddar a diolch i bawb a gyfranodd at yr achlysur.

Mae'r noson gwis boblogaidd yn dychwelyd ar ddiwedd y mis. Dewch i ffarwelio a mis Ionawr drwy drefnu neu ymuno a thim cwis a chael noson o hwyl a sbri yn neuadd yr ysgol.

Ionawr 27: Noson gwis, 1900 yn Neuadd yr Ysgol.

Mynnwch eich tocynnau ymlaen llaw o'r brif swyddfa neu cewch dalu wrth y drws ar y noson. A fyddech cystal a chysylltu a'r ysgol ymlaenllaw os ydych yn bwriadu dod i'r cwis? Bydd hynny'n gymorth i'r pwyllgor wrth iddynt fynd ati i archebu'r bwyd a'r diod.

SEICLO I'R YSGOL

Gofynnir i bawb sy'n seiclo i'r ysgol wisgo dillad a helmed sy'n adlewyrchu golau yn enwedig yn ystod misoedd tywyll y Gaeaf. Mae goleuadau blaen a cefn i'w cymeradwyo wrth feddwl am ddiogelwch ar y ffordd fawr.

GWISG YSGOL

Nodyn byr i'ch atgoffa bod siop YC Sports ar Heol Crwys yn cyflenwi'r gwisg ysgol ac yn cynnig gostyngiad o 15% ar eitemau ychwanegol fel cotiau tywyll, esgidiau ymarfer ac esgidiau ysgol addas.

CWPWRDD STORIO

Os ydych yn pryderu am lwyth cario trwm eich plentyn, mae'r ysgol yn cynnig gwasanaeth storio eiddo diogel dyddiol. Mae disgwyl i'r disgyblion fynd a'u bagiau trwm at y brif swyddfa lle diogelir yr eiddo tan amser cinio neu ddiwedd y dydd.

NEWID CYFEIRIAD / RHIFAU FFÔN

Apel i bawb sydd yn newid cyfeiriad neu rhif ffôn yn enwedig ffonau symudol i drosglwyddo'r wybodaeth hynny i'r swyddfa. Mae'n bwysig bod y wybodaeth sydd gennym am bob disgybl yn gwbl gywir.

OFFER I'R YSGOL

A all rhieni sicrhau bod gan eu plant yr offer cywir yn eu bagiau ysgol yn ddyddiol? Mae'r rhestr yn cynnwys pen, pensil, rwbiwr, pren mesur a phensiliau lliw. Ni chaniateir 'tippex' na pheniau ffelt trwchus. Mae gormod o ddisgyblion yn cyrraedd eu gwersi heb yr offer priodol sy'n amharu ar y dysgu ar gychwyn y wers.

CEIR AR Y SAFLE

Gofynnir yn garedig i rieni beidio gollwng neu casglu eu plant ar safle'r ysgol yn y bore ac ar ddiwedd y dydd yn eu ceir ond yn hytrach i wneud hynny ar hyd strydoedd cyfagos neu yn yr arhosfan bws cyhoeddus wrth flaen yr ysgol. Mae'r arhosfan bws estynedig ychydig yn wacach nag yn ystod y misoedd diwethaf nawr bod ceir y contractwyr wedi symud i ffwrdd.

Dymuniadau gorau i'r disgyblion hynny ym mhlynyddoedd 11, 12 a 13 sy'n wynebu arholiadau modylol yn ystod mis Ionawr.